



**CYNGOR BRO MORGANNWG
SWYDDFEYDD DINESIG, HEOL HOLLTWN,
Y BARRI CF63 4RU**

**HYSBYSIAD STATUDOL I SYMUD YSGOL GYNRADD LLANCARFAN, LLANCARFAN, CF62
3AD I SAFLE YSGOL NEWYDD YN Y RHWS AR DIR I'R GOGLEDD-ORLLEWIN O'R
RHEILFFORDD, YMESTYN YR YSTOD OEDRAN A CHYNYDDU CAPASITI'R YSGOL**

RHODDIR HYSBYSIAD yn unol ag adrannau 42(1)(a) Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, 'y Ddeddf', a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2013, fod Cyngor Bro Morgannwg, ar ôl ymgynghori â'r bobl ofynnol, yn cynnig gwneud addasiadau a reoleiddir i Ysgol Gynradd Llancarfan drwy:

1. Symud Ysgol Gynradd Llancarfan i safle ysgol newydd yn y Rhws ar dir i'r Gogledd-orllewin o'r rheilffordd (paragraff 2 Atodlen 2 'y Ddeddf')
2. Ymestyn ystod oedran yr ysgol o 4-11 oed i 3-11 oed (paragraff 5 Atodlen 2 'y Ddeddf')
3. Cynyddu capasiti'r ysgol i ddisgyblion o oedran ysgol statudol o 126 lle i 210 lle (paragraff 10 Atodlen 2 'y Ddeddf')

Mae'r ysgol yn un cyfrwng Saesneg a gynhelir gan Gyngor Bro Morgannwg.

Ymgwymerodd Cyngor Bro Morgannwg â chyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori yn cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigydd a barn Estyn ar gael ar wefan Bro Morgannwg yn www.valeofglamorgan.gov.uk/westernvalereconfiguration

Bwriedir rhoi'r cynnig ar waith ar 1 Medi 2021. Bydd yr ysgol yn parhau yn ysgol gymunedol a bydd yn parhau i dderbyn disgyblion o'r ddau ryw.

Caiff dalgylch ysgol newydd ei sefydlu i'r ysgol. Mae'r dalgylch i'w weld yn y ddogfen ymgynghoriad sydd ar gael yn www.valeofglamorgan.gov.uk/westernvalereconfiguration neu yn y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, y Barri CF63 4RU.

Cyngor Bro Morgannwg fydd yr awdurdod derbyn o hyd. Bydd y cynnig yn arwain at gynyddu nifer derbyn a gyhoeddir yr ysgol o 18 i 30. Nifer y disgyblion a gaiff eu derbyn i ddosbarth Derbyn yr ysgol yn 4/5 oed yn ystod y flwyddyn ysgol gyntaf y caiff fydd 30. Y nifer derbyn ar gyfer disgyblion oedran meithrin 3 i 4 oed yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol gyntaf fydd 48 o ddisgyblion rhan amser. Nid yw trefniadau derbyn yn darparu ar gyfer dewis yn ôl gallu (bandio disgyblion) Yn Hydref 2018, roedd 83 o ddisgyblion o oedran ysgol statudol ar gofrestr yr ysgol. Cynyddu capasiti'r ysgol i ddisgyblion o oedran ysgol statudol o 126 lle i 210 lle. Bydd yr ysgol hefyd yn bodloni'r galw a ddaw o ddatblygiadau tai newydd i'r gogledd o'r rheilffordd yn y Rhws.

Mae trefniadau Teithio Dysgwyr Cymru Gyfan¹ yn rhoi cymhwysedd i gludiant ysgol os yw disgyblion yn byw mwy na phellter cerdded i'w hysgol ddalgylch agosaf neu ddynodedig. Diffinnir pellter cerdded fel dwy filltir neu pellach i oedran cynradd a thair milltir neu pellach i ddisgyblion oedran uwchradd, fel y mesurir gan y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael. Rhydd Bro Morgannwg drafndiaeth yn unol â'r uchod. O ganlyniad i symud yr ysgol a'r newidiadau dilynol i ddalgylchoedd ysgol, caiff adolygiad o gymhwysedd disgyblion ei gynnal.

¹ Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008 a Darpariaeth Statudol Teithio gan Ddysgwyr a Chanllawiau Gweithredol Mehefin 2014

Yn unol ag adran 49 'y Ddeddf', o fewn cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn dan adran 48 'y Ddeddf', hynny yw erbyn 3 Rhagfyr 2018, gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at Paula Ham, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfa Ddinesig, Heol Holltwn, Y Barri CF63 4RU neu e-bostiwrch

JMJones@valeofglamorgan.gov.uk

Llofnod:



Paula Ham, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau
5 Tachwedd 2018

NODYN EGLURHAOL – NID YW HWN YN RHAN O'R HYSBYSIAD STATUDOL.

Mae'r Cyngor yn cynnig ail-gyflunio darpariaeth ysgolion cynradd yng ngorllewin y Fro i:

- Greu adeilad ysgol gynradd 210 lle newydd â 48 o leoedd rhan amser yn y dosbarth meithrin ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan yn y Rhws;
- Symud staff a disgyblion o Ysgol Gynradd bresennol Llancarfan i adeilad ysgol newydd;
- Newid ystod oedran ysgol Gynradd Llancarfan o 4-11 oed i 3-11 oed;
- Cynyddu capasiti'r ysgol i 210 o leoedd.

Gwneir y cynnig dan adran 2.2 Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 y cyfeirir atynt fel yr Addasiadau a Reoleiddir. Bydd y cynnig yn symud Ysgol Gynradd Llancarfan i safle newydd yn y Rhws, yn ymestyn ystod oedran yr ysgol o 4-11 oed i 3-11 ac yn cynyddu capasiti'r ysgol o 126 lle i 210 lle. Bydd y cynnig hefyd yn bodloni'r galw a ddaw o ddatblygiadau tai newydd yn y Rhws.

Y Cyngor yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol. Bydd yr ysgol yn darparu 48 o leoedd meithrin rhan amser a 210 o leoedd ysgol gynradd. Bydd meithrinfa yn galluogi hyd at 48 o blant 3-4 oed (o'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed tan iddynt ddechrau mewn dosbarth derbyn) i dderbyn addysg feithrin ran amser yn yr ysgol. Nid yw presenoldeb yn y feithrinfa'n gwarantu lle i blentyn yn y dosbarth derbyn yn yr ysgol, bydd yn rhaid i rieni gwblhau cais am le derbyn yn yr ysgol ddewis.

Gwneir buddsoddiad cyfalaf sylweddol, yn amodol ar gyllid Llywodraeth Cymru, wrth sefydlu adeilad ysgol newydd i Ysgol Gynradd Llancarfan ar safle newydd. Amcan gost y project yw £4.185 miliwn. Disgwylir i'r Cyngor dderbyn £2.0925 miliwn mewn arian cyfatebol Band B Llywodraeth Cymru drwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif i'r project hwn. Bydd cyfanswm o £1.639 miliwn mewn cyfraniadau Adran 106 ar gael gan ddatblygiadau yn y Rhws gyda'r gweddill yn cael ei dalu gan gyllid cyfalaf y Cyngor.

Byddai cludiant ysgol yn cael ei ddarparu i blant sy'n byw 2 filltir neu fwy o safle'r ysgol newydd. Mae'n debyg y byddai dau fws mini'n gwasanaethu'r ysgol, un o ardal Llancarfan ac un arall yn gwasanaethu Llancatal a Llanbydderi er y caiff yr union drefniadau eu penderfynu arnynt gan yr adran cludiant ysgolion.